Tasg 3

# Mae cywilydd arna i!

Sylwch ar y ffurfiau yma:

| Ffurfiau llenyddol | | | Ffurfiau llafar | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae | cywilydd | **arnaf i** | Mae | cywilydd | **arna i** |
| | | **arnat ti** | | | **arnat ti** |
| | | **arno ef** | | | **arno fe / fo** |
| | | **arni hi** | | | **arni hi** |
| | | **arnom ni** | | | **arnon ni** |
| | | **arnoch chi** | | | **arnoch chi** |
| | | **arnynt hwy** | | | **arnyn nhw** |

Llenwch y bylchau.
Dewiswch naill ai'r ffurfiau llenyddol neu'r ffurfiau llafar.

Roedd Siôn a fi yn eistedd yn dawel yng nghefn yr ystafell ond cododd Dad ar ei draed a dechreuodd ganu "Hen Wlad fy Nhadau" yn uchel.

Roedd cywilydd ........................ ni. Dylai fod cywilydd ........................ fo hefyd ond dyna lle roedd o yn canu nerth ei ben!

Am ddiwrnod ofnadwy! Dyna lle roeddwn i, yn chwarae pêl-droed yn nhîm yr ysgol. Roeddwn i'n rhedeg i fyny'r cae ac yna'n sydyn roeddwn i ar fin saethu am y gôl pan glywais i lais uchel yn gweiddi nerth ei phen, "Saetha cariad, saetha, saetha, saetha!" "Cariad?!" O, na! Mam! Edrychais arni am eiliad wrth gicio – a methais y gôl. O, na!!! Roedd cywilydd ........................ i.

Gweiddi

Ymadroddion eraill sy'n dilyn yr un patrwm:

| | |
|---|---|
| Mae syched arna i. | Mae ofn arna i. |
| Mae chwant bwyd arna i. | Mae hiraeth arna i. |
| Mae eisiau bwyd arna i. | Mae arna i (bunt i ti). |

Ewch i'r dudalen nesaf.

Llenwch y bylchau.

| | |
|---|---|
| 1. | Oes ofn nadroedd ........................ ti? Mae ofn nadroedd a chorynnod ........................ i! |
| 2. | Bobl bach, roedd syched ........................ ni ar ôl bod yn cerddded drwy’r prynhawn. |
| 3. | Roedd arogl cacennau ffres yn dod o’r gegin ac yn sydyn roedd eisiau bwyd ........................ ni. |
| 4. | Oes ........................ ni arian i chi? |
| 5. | Oes, mae ........................ chi ddeg punt i ni. |
| 6. | Rwyt ti wedi bod yn byw yma ers blwyddyn – oes hiraeth ........................ ti am dy hen gartref? |
| 7. | Mae hi’n ddau o’r gloch y prynhawn a dw i ddim wedi cael fy nghinio eto. Mae eisiau bwyd ........................ i! |
| 8. | Oes syched ........................ ti? |
| 9. | Mae chwant pizza ........................ i heno. |
| 10. | Roedd hi’n dywyll iawn pan gyrhaeddon ni’r hen dŷ ac roedd ofn ........................ ni. |